Community University of the Valleys Partnership
Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd

Partneriaeth Prifysgol Gynumedol y Cymoedd



anelu'n **uchel**

Datblygu e-Ddysgu Cymunedol

Canllawiau i Bartneriaid

YR UNDEB EWROPEAIDD
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
AMCAN 1
EUROPEAN UNION
European Social Fund
OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn bartneriaeth unigryw rhwng Addysg Uwch a'r sector Gwirfoddol yn Ardal y Cymoedd a Gorllewin Cymru sy'n gweithio at ddatblygu cyfleoedd priodol yn y gymuned i bobl gael dysgu gydol eu hoes. Nod y bartneriaeth yw ehangu'r nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn addysg uwch trwy ddod â dysg yn agosach at eu cartrefi a'i wneud yn fwy perthnasol i bob rhan o'n cymunedau.

Partneriaid sy'n Cyfrannu at y Canllawiau hyn

Anturiaeth Dyffryn Aman
Ymddiriedolaeth Datblygu Blaenymaes, Portmead a Phenplas
Strategaeth Cymuned Bryncynon
Ymddiriedolaeth Datblygu Catapult, Tredegar
Dysgu Gydol Oes Dinas a Sir Abertawe
Gweithdy Dove, Banwen
Canolfan Hyfforddi Glyn Nedd
Menter Cwm Gwendraeth
Ysgol Uwchradd Penydre Merthyr Tudful
Dysgu Gydol Oes CBS Rhondda Cynon Taf
Rhwydwaith Dysgu Rise
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Canolfan Tele ac Ysgol Fusnes, Porth
Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Cymru, Abertawe
Prifysgol Cymru, Casnewydd
Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru

Diolch yn arbennig i brosiect Connecting Communities Cymru, Adran Addysg Barhaus Oedolion, Prifysgol Cymru Abertawe a phrosiect Cynnydd trwy Bartneriaeth, Canolfan Dysgu Cymunedol a Gydol Oes, Prifysgol Cymru Casnewydd am eu cymorth a'u harbenigedd wrth ddatblygu'r canllawiau hyn.

CUV Partnership
c/o Dept of Adult and Continuing Education
University of Wales Swansea
Singleton Park, Swansea SA2 8PP

Neges o Gymorth gan
Grŵp Cynllunio Partneriaeth PGC

"Mae dysgu gydol oes wedi tyfu'n gawr addysgol, ac mae'n ymddangos bron ym mhob menter polisi i ehangu mynediad. I wireddu hyn, mae'n rhaid i brifysgolion a mudiadau cymunedol osgoi partneriaethau diystyr; yn hytrach rhaid iddynt geisio rhannu eu hadnoddau, eu hathrawon a'u dysgwyr yn wirioneddol. Mae partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn gwneud hynny'n union trwy ddyfeisio cyrsiau dychmygus, llunio strategaethau asesu gwahanol, a chroesawu pobl na fyddent fel arall wedi dod i gyswllt â dysgu. Yn y llawlyfr hwn cynigir cyfres o egwyddorion a chanllawiau gwerthfawr. Maen nhw'n cynnig model o arfer da ac yn atgoffa pawb yn y maes wrth hyrwyddo ein gwerthoedd addysgol craidd: dysgu ar gyfer bywyd, dysgu ar gyfer gwaith, dysgu ar gyfer pawb."

Yr Athro Colin Trotman - Pennaeth Adran Addysg Barhaus Oedolion Prifysgol Cymru Abertawe
Yr Athro Danny Saunders - Pennaeth Canolfan Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Morgannwg
Mrs Jan MacCallum - Rheolwr Canolfan Hyfforddi Glyn Nedd
Mr Viv Davies - Pennaeth Canolfan Dysgu Cymunedol a Gydol Oes, Prifysgol Cymru Casnewydd
Dr Heather Graham - Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru

GEIRFA

anghydamseredig	*cyfathrebu ar-lein sy'n digwydd nawr ag yn y man gydag oedi mewn amser. Rhai enghreifftiau yw gwasanaethau cyngor Cwestiwn ac Ateb, grwpiau trafod ar-lein ac e-bost*
sgwrs	*cyfathrebu ar-lein, amser iawn, trwy destun/ysgrifen*
llythrennedd digidol	*technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sy'n cael ei ddefnyddio i hwyluso a chefnogi dysgu*
offerynnau e-ddysgu	*y gallu i gael hyd i wybodaeth, ei ddeall, ei werthuso a'i integreiddio trwy gyfrifiadur a'r Rhyngrwyd*
byrddau/fforymau trafod	*fforymau ar y rhyngrwyd neu fewnrwyd lle y gall defnyddwyr bostio negeseuon i eraill eu darllen*
dyfeisiadau llaw	*dyfais sy'n ddigon bach i'w rhoi yn eich llaw ac sy'n gallu defnyddio technoleg diwifr i bori trwy gynnwys y We. Rhaid bod gan ddyfais llaw'r tair nodwedd hyn:* • *gweithio heb gebl* • *hawdd ei defnyddio yn eich llaw, heb ei gorffwys ar fwrdd neu ddesg* • *gallu ychwanegu cymhwysiad neu gefnogi cyswllt at y Rhyngrwyd*
caledwedd	*rhannau ffisegol ac electronig cyfrifiadur*
Messenger	*offeryn sgwrsio byw fel msn neu yahoo*
meddalwedd	*cyfres o gyfarwyddiadau sy'n dweud wrth gyfrifiadur beth i'w wneud; rhaglen*
cydamserol	*digwyddiad amser iawn, ar-lein ble mae pob un sy'n cymryd rhan wedi eu cofrestru ar yr un pryd ac yn cyfathrebu yn uniongyrchol gyda'i gilydd. Yn y rhan fwyaf o lwyfannau, fe all defnyddwyr ddefnyddio bwrdd gwyn i weld gwaith ar gynnydd a rhannu gwybodaeth. Gellir hefyd rhyngweithio trwy gynhadledd fideo neu sain, teleffoni Rhyngrwyd neu ddarllediadau byw dwyffordd*
fideo a/neu sain gynadledda	*defnyddio signalau fideo a sain i gysylltu'r rheiny sy'n cymryd rhan ar-lein mewn gwahanol leoliadau*
dyfais rhith-ddysgu (drd))	*darn penodol o feddalwedd sy'n galluogi dysgwyr a staff i ryngweithio, ac mae'n cynnwys trosglwyddo cynnwys a thracio. Y vle mwyaf cyffredin yw Black Board a WebCT*
gwegamera	*dyfeisiadau camera gwe sy'n cysylltu'n syth i'r cyfrifiadur er mwyn galw fideo dros y rhyngrwyd*
gwegofnod	*"cofnod" o'r we - safle tebyg i ddyddiadur lle mae'r awdur (blogiwr) yn cysylltu at dudalennau gwe eraill y mae'n eu cael yn ddiddorol gan ddefnyddio cofnodion a bostiwyd yn y drefn gronolegol gan ddechrau gyda'r diweddaraf*
wiki	*cymhwysiad gwe sy'n galluogi defnyddwyr i ychwanegu testun, fel ar fforwm rhyngrwyd, ond hefyd yn galluogi unrhyw un i olygu'r cynnwys*

Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd

Anelu'n **Uchel**

Datblygu e-Ddysgu Cymunedol - Canllawiau i Bartneriaid

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd (PPGC) wedi ymrwymo i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu'n barhaus er mwyn helpu ehangu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn dysgu a chefnogi'r dilyniant at addysg uwch. Mae PPGC yn gweithio'n strategol i gael y mwyaf allan o adnoddau er mwyn sicrhau dysgu cymunedol o ansawdd uchel ar draws ardaloedd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo'r defnydd effeithiol o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn gryf o fewn strategaethau adfywio cymunedol a dysgu cymunedol. Wrth galon ei ethos mae yna gred a rennir yng ngwerth democratiaeth y dysgwr a phwysigrwydd trafod gyda dysgwyr a chymunedau wrth ddatblygu adnoddau TGCh cymunedol a hyfforddiant mewn sgiliau TGCh.

Datblygwyd y canllawiau hyn sy'n ymdrin ag arfer da wrth ddatblygu e-ddysgu cymunedol trwy broses gydweithredol ac maen nhw'n adlewyrchu arferion a phrofiad mudiadau partner. Cânt eu cyflwyno fel cyfraniad at y broses o wella ansawdd ac maen nhw'n adeiladu ar werthoedd ac egwyddorion a nodwyd yng Nghanllawiau Arfer Da Partneriaeth PGC, 'Anelu'n Uchel' * Nid yw'r ddogfen yn ddatganiad hollgynhwysol a chroesewir enghreifftiau pellach o arfer da.

* Am gopïau o 'Anelu'n Uchel' a chanllawiau arfer da eraill ewch at ein gwefan, www.cuv.org.uk

e-Ansawdd

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae newidiadau technolegol wedi cael effaith sylweddol ar addysg gymunedol i oedolion. Mae angen sgiliau newydd ar gyfer y gweithle, ond mae mynediad ehangach at dechnolegau newydd a'r rhyngrwyd hefyd yn creu math newydd o lythrennedd sy'n cael effaith ar bob rhan o'n bywydau; y cartref, y gwaith, hamdden a dysgu.

Mae'r Rhyngrwyd a TGCh yn cynnig sawl mantais i unigolion a chymunedau o ran cyfathrebu gydag eraill, cael hyd i wybodaeth a datblygu gwybodaeth. Eto, er gwaethaf cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio'r Rhyngrwyd, mae yna nifer fawr o hyd sy'n parhau i golli allan ar fanteision potensial gan nad oes mynediad ganddynt i TGCh neu am nad ydynt yn gweld bod e-ddysgu yn berthnasol i'w bywydau. Felly mae yna nifer o heriau wrth ddatblygu e-ddysgu cymunedol.

Defnyddio technoleg TGCh i ddatblygu cymunedau wedi eu rhwydweithio

Mae gan gymunedau sydd wedi eu rhwydweithio trwy TGCh y potensial i wneud cymaint yn fwy na chynnig cyfleoedd i chwilio am wybodaeth neu rannu gwybodaeth ar y we fyd eang

Trwy ddatblygu cymuned wedi'i rhwydweithio, gellir:

- galluogi cymunedau i gymryd perchnogaeth o'u dysgu
- ehangu ffyrdd o gyfathrebu a rhwydweithio'n lleol
- datblygu hyder ac arbenigedd wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd fel cynhyrchwyr gwybodaeth yn ogystal â defnyddwyr gwybodaeth
- agor cyfleoedd cymdeithasol, hamdden a gwaith newydd i bobl leol
- darparu rhith-ofod i gyfathrebu'n fyd-eang ac i gyfnewid profiadau
- datblygu defnyddwyr TG sy'n ymwybodol o fanteision a pheryglon TGCh fel gwybodaeth sydd ddim yn fanwl gywir

Rydyn ni'n credu mai'r ffordd orau o sicrhau cymunedau sydd wedi'u rhyngweithio'n effeithiol yw darparu:

- Y cysylltau TGCh a band llydan hygyrch diweddaraf mewn lleoliadau cymunedol
- Amgylcheddau e-ddysgu cefnogol a chymorth technegol
- Rhaglenni e-ddysgu cytbwys, sy'n cynnwys
    - Cyfleoedd dysgu sy'n rhoi'r sgiliau angenrheidiol i ddysgwyr a darparwyr addysg i ddefnyddio'r dechnoleg gyfathrebu'n effeithiol
    - Cyrsiau e-ddysgu ffurfiol ac anffurfiol
    - Hyfforddiant mewn Llythrennedd Gwybodaeth - ymchwilio'n effeithiol i'r rhyngrwyd, gwneud synnwyr o wybodaeth a'i ddilysu
- Gweithgarwch e-ddysgu sy'n berthnasol i fywyd y gymuned
- Cyfleoedd i ddysgwyr a darparwyr addysg i weithio mewn partneriaeth

e-ddysgu a chwricwlwm ar-lein

Nid yw'n realistig disgwyl i ddysgwyr mewn ardaloedd lle mae yna eithriad cymdeithasol ac anfantais economaidd i ddod i gyswllt ag e-ddysgu heb roi sylw i'r posibilrwydd o ddiffyg llythrennedd digidol. Rhaid i strategaethau e-ddysgu ddechrau trwy sicrhau mynediad da at gyfleusterau TGCh o safon, cyrsiau cymunedol i ddatblygu sgiliau cyfrifiadurol a gweithgareddau datblygu cymunedol i hybu manteision defnyddio'r technolegau newydd hyn. Heb y sgiliau i weithio cyfrifiadur, nid oes ystyr i fanteision potensial ffyrdd newydd o gyfathrebu a chasglu gwybodaeth. Unwaith y bydd pobl yn gyfarwydd â defnyddio'r dechnoleg, efallai hefyd y bydd hyn yn meithrin eu diddordeb mewn darganfod beth arall sydd ar gael iddynt trwy'r We Fyd Eang.

Mae gweithgareddau fel e-gylchgrawn cymunedol sy'n cynnwys y defnydd o fideo digidol, sain a ffotograffiaeth i adrodd stori'n ddigidol yn ffyrdd da o feithrin diddordeb mewn cynhyrchu deunyddiau ar-lein a dod â phobl i gysylltiad â thechnoleg a dysgu.

Fel gyda mathau mwy traddodiadol o ddysgu, mae'n bwysig trafod gyda mudiadau cymunedol a dysgwyr er mwyn datblygu cwricwlwm ar-lein sy'n ddiddorol, yn ysbrydoli ac o fantais i unigolion a'r cymunedau y maen nhw'n byw ynddynt. Ar hyn o bryd, y ffordd fwyaf poblogaidd o gyflwyno e-ddysgu yw cyfuniad o ddysgu ar-lein a wyneb-yn-wyneb, defnyddio amrywiaeth o dechnolegau, fel fideo gynadleddau, a rhith-amgylchedd dysgu, tâp, fideo digidol a thechnoleg symudol a diwifr. Mae e-ddysgwyr newydd yn teimlo nad yw'r ymagwedd gymysg hon mor fygythiol wrth newid o ddysgu traddodiadol i ddysgu ar-lein. Y ffordd orau yw cynnig gweithgareddau e-ddysgu anffurfiol i feithrin diddordeb ond, ac yr un mor bwysig, cynnig e-gyrsiau mwy ffurfiol ac achrededig, i gwrdd â'r newid yn niddordeb y dysgwr a'r gofynion o ran sgiliau.

Mae'r ymagwedd gymysg hon hefyd yn helpu tiwtoriaid i addasu i dechnolegau newydd ac i ddatblygu eu gwybodaeth o'r ffordd y mae ymagweddau e-ddysgu yn gallu cyfoethogi dysgu ac addysgu. Fe all TGCh ddarparu mynediad hwylus at ddeunyddiau ar-lein i gefnogi testun neu ddiddordeb penodol sy'n gysylltiedig â'r addysgu. Fe all gynnig ffyrdd newydd o ddarparu cymorth ar gyfer y tiwtor a'r dysgwr, tra gall offerynnau cyfathrebu fel 'sgwrsio uniongyrchol' a 'byrddau trafod' a'r gwelogiau niferus a'r 'wikis' sy'n datblygu ar draws y byd ar hyn o bryd annog cyswllt gyda phobl ym mhob cwr o'r byd i gyfnewid gwybodaeth a phrofiadau.

Sgiliau ar gyfer e-ddysgu

Mae angen nifer o sgiliau ychwanegol er mwyn astudio'n effeithiol ar-lein.

Dyma sgiliau allweddol sydd eu hangen i astudio ar-lein:

- Sgiliau TG sylfaenol a llythrennedd sylfaenol (er nid oes angen defnyddio geiriau ym mhob achos)
- Dealltwriaeth ymarferol o systemau a gweithdrefnau e-ddysgu ac e-Gymorth
- Sgiliau ymarferol a hyder mewn e-Gyfathrebu, e.e. sgwrsio, byrddau trafod, arferion iaith, diffyg iaith y corff; mynegi syniadau a chyfathrebu trwy gyfryngau gwahanol; cymryd rhan mewn grwpiau dysgu gwahanol
- Rhyw lefel o annibyniaeth, hunangyfeiriad, rheoli amser
- Sgil i chwilio'n effeithiol am wybodaeth
- Sgil i ddadansoddi a rheoli'r wybodaeth hon
- Sgil i werthfawrogi a gwerthuso gwahanol bersbectifau

Datblygu e-ddysgu cymunedol

Fe fydd strategaethau e-ddysgu cymunedol yn elwa o:

- Ymagwedd o drafod, gwaelod i fyny, gweithio gyda grwpiau cymunedol i ganfod nodau dysgu ac i ddatblygu darpariaeth addas
- Ymagwedd o bartneriaeth, gweithio gyda'r amrywiaeth o ddarparwyr dysgu a gwasanaethau cymorth er mwyn osgoi dyblygu a rhannu adnoddau, er lles y gymuned
- Ymagwedd wybodus, mapio'r adnoddau a'r mentrau e-ddysgu a chael dealltwriaeth glir o'r hyn y gellir ei ddatblygu'n lleol

Fe fydd e-ddysgwyr cymunedol yn elwa o:

Cyn y Cwrs -
Sesiynau Cychwynnol ar

- ymagweddau e-ddysgu a sgiliau TGCh sylfaenol
- sut i gael cymorth e-ddysgu
- sut i chwilio'r rhyngrwyd

Ar Ddechrau'r Cwrs -
Sesiynau Ymwybyddiaeth ar:

- gynnwys y cwrs, offerynnau e-ddysgu, nodau e-ddysgu, prosesau asesu ayb
- y mudiad a'i weithdrefnau
- gwasanaethau ac adnoddau cymorth
- gwasanaethau cymorth anabledd

Yn ystod y Cwrs -
Cyfleoedd i:

- ddysgwr/tiwtor adfyfyrio ac adolygu'r cwrs
- gael cymorth academaidd
- gael cymorth anacademaidd, e.e. gweinyddiaeth, cyngor ac arweiniad, cymorth technegol

Defnyddio TGCh i helpu'r dysgwr

Mae astudio ar-lein yn gallu bod yn brofiad ynysig i ddysgwyr. Mae bod ar wahân i fyfyrwyr eraill, tiwtoriaid a'r sefydliad dysgu yn gallu gostwng y lefel o gymorth sydd ar gael i ddysgwyr a'i ansawdd. Mae dysgwyr sy'n methu â sefydlu rhwydweithiau cymorth yn fwy tebygol o adael eu hastudiaethau heb eu gorffen ac yn aml mae gan gyrsiau dysgu o bellter a dysgu agored gyfraddau uchel o bobl sy'n gadael y cwrs heb ei orffen. Gellir sicrhau llawer o welliant trwy TGCh er mwyn gwella a chyfoethogi'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr, yn academaidd ac yn anacademaidd.

Rydyn ni'n credu y gellir cyfoethogi gwasanaethau cymorth i ddysgwyr trwy ddefnyddio TGCh yn effeithiol, tra bod dysgwyr yn cael cymorth i ddatblygu sgiliau TGCh.

Mae angen i ddarparwyr sicrhau:

- Meddalwedd ymarferol o ansawdd uchel h.y. amgylchedd dysgu greddfol, rhyngweithiol a llywio da, lefel ffwythiannol uchel nid dim ond yn seiliedig ar eiriau
- Strategaeth Datblygu Staff e-gymorth - Mae angen sgiliau ar yr holl diwtoriaid a staff cymorth i ddefnyddio e-gymorth a denu ac ysgogi dysgwyr
- Strategaeth cymorth cyfoedion i ddysgwyr; trosglwyddo sgiliau o ddysgwyr profiadol i ddysgwyr newydd
- Strategaeth Cyfartaledd Anabledd - sicrhau bod y systemau sy'n cael eu datblygu yn hollol hygyrch i bob defnyddiwr

Gellir defnyddio technoleg hefyd i gefnogi cyrsiau traddodiadol, yn enwedig os yw dysgwyr yn wasgarog neu os yw'r darparwyr addysg yn bwriadu creu 'cymuned o ddysgwyr' rhwng myfyrwyr o wahanol leoliadau. Mae angen yr un sgiliau ac sydd eu hangen ar gyrsiau sy'n hollol ar-lein, ac mae'r un materion a nodwyd uchod angen ystyriaeth.

Materion i'w cofio'n gyffredinol wrth ddatblygu e-gymorth:

- Mae'n anoddach darparu cymorth arbenigol ar-lein nag ydyw i ddarparu cymorth wyneb-yn-wyneb
- I ddechrau, mae angen tipyn o 'ddal-llaw' er mwyn dod â dysgwyr i gyswllt ag e-gymorth
- Mae ymagwedd dysgwr-mentor yn arfer da
- Wrth ddatblygu e-gymorth newydd, gellir trefnu treialon dysgwyr a datblygu systemau i gasglu adborth parhaus gan ddysgwyr. Mae hyn yn cynyddu'r synnwyr o berchnogaeth ac ymrwymiad.
- Mae adran 'geirfa' sy'n esbonio'r termau a'r jargon yn ddefnyddiol

Datblygiad staff i annog y defnydd o TGCh ac e-ddysgu

Wrth ddatblygu e-ddysgu cymunedol, fe fydd angen datblygiad staff ar gyfer tiwtoriaid, sy'n darparu'r cyfleoedd dysgu, ac ar gyfer gweithwyr cymunedol a staff cymorth, sy'n gallu annog dysgwyr i ddefnyddio TGCh. Mae angen cymorth ar y ddau grwp i ennill hyder ac arbenigedd wrth ddefnyddio technoleg. Fe^fyddai Rhaglen o Ddatblygiad Proffesiynol i annog y defnydd o dechnoleg ar gyfer addysgu a dysgu yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth ynghylch y dechnoleg a'r adnoddau gwybodaeth ar-lein sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu
    - ymhlith gweithwyr cymunedol
    - tiwtoriaid cymunedol
    - staff academaidd
- Codi ymwybyddiaeth ynghylch yr offerynnau cyfathrebu ar-lein sydd ar gael
- Gwybodaeth hygyrch ar adnoddau a chymorth TGCh
- Darparu offer TGCh a chlustnodi amser i staff gael mynediad at y TGCh
- Sesiynau hyfforddiant ar gyfer staff llinell flaen, gweithwyr a thiwtoriaid cymunedol yn y defnydd o TGCh i gyfoethogi eu gwaith beunyddiol
- Sesiynau hyfforddiant i'r holl staff ar sut i ddefnyddio offerynnau cyfathrebu fel messenger, gwegamerau, byrddau trafod
- Cymorth a chyngor i staff ynghylch defnyddio TGCh yn eu gwaith beunyddiol
- Sesiynau hyfforddiant ar y modd y gall deunyddiau e-ddysgu gyfoethogi dysgu traddodiadol

Mae'n bwysig cofio nad ydyw darparu cyfleoedd dysgu ar-lein yn golygu rhoi gwybodaeth ar-lein yn unig. Mae'n ymwneud mwy â hwyluso'r broses o ddysgu trwy'r defnydd o offerynnau cyfathrebu rhyngweithiol, fel fforymau trafod, sgwrsio, fideo gynadledda.

Rhaid i'r holl staff deimlo'n gartrefol yn yr amgylchedd ar-lein cyn y gallant weithredu fel rhai sy'n hybu ac yn cefnogi e-ddysgu yn effeithiol.

Fe all Tiwtoriaid a Gweithwyr Cymunedol chwarae rhan bwysig wrth hybu a datblygu sgiliau e-Ddysgu trwy:

- Ddefnyddio cyfryngau TGCh gwahanol fel offerynnau dysgu, deunydd cwrs cefnogol
- Cynllunio a chefnogi gweithgareddau dysgu mewn ffordd sy'n golygu defnyddio TGCh ac annog dysgwyr i ddefnyddio'r rhyngrwyd i ymchwilio
- Darparu amgylchedd dysgu sy'n cyfuno dulliau traddodiadol ac e-ddysgu ble mae dysgwyr yn cael cyswllt cynyddol gydag e-ddysgu
- Hwyluso a chefnogi defnydd dysgwyr o dechnolegau newydd

Fe fydd angen i ddarparwyr hefyd sicrhau:

- Ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r defnydd o gyfrifiaduron
- Argaeledd cymorth dechnegol yn ystod oriau addysgu

Arfer Da wrth addysgu a dysgu ar-lein

Ym mhob math o ddysgu, waeth a yw mewn sefyllfa ystafell ddosbarth draddodiadol neu ar-lein, mae yna dri phrif beth i'r dysgwr:

1. Sut mae'r tiwtor yn cyflwyno'r testun
2. Sut mae'r dysgwr yn adeiladu gwybodaeth ac yn cysylltu'r testun at yr hyn y mae'n ei wybod yn barod a chyd-destun ei sefyllfa mewn bywyd
3. Sut i gyfathrebu gydag eraill - dysgwyr, tiwtoriaid, ffrindiau a theulu

Dyma enghreifftiau o sut y mae defnyddio technoleg yn effeithiol yn gallu cefnogi a chyfoethogi'r prosesau hyn:

- Wrth ddefnyddio Amgylchedd Rhith-Ddysgu (VLE) fe all y tiwtor a'r dysgwr gyflwyno a phrofi bron i unrhyw faes dysgu mewn ffyrdd diddorol:
  - defnyddio fideo a sain
  - cynnwys cyflwyniadau sy'n cysylltu geiriau, sain a lluniau
  - cysylltu at ddeunyddiau a ffynonellau gwybodaeth eraill
  - datblygu fforymau i adrodd yn ôl
  - darparu ymarferion hunanasesu ar-lein
  - sefydlu fforymau trafodaeth ar-lein
  - sefydlu gweithgareddau a thasgau ar-lein i'w trafod a'u gweithredu mewn cydweithrediad â chyd-fyfyrwyr
  - darparu adborth gan diwtoriaid trwy fforymau ac e-bost
  - datblygu cyfleusterau cynhadledd i gyfarwyddo trafodaethau un-i-un cydamserol, cynhadledd fideo a/neu sain
  - cynllunio adnoddau gwybodaeth ar-lein i gefnogi astudiaeth, fel cwestiynau a ofynnir yn aml, clipiau fideo o drafodaeth tiwtorial, samplau o gwestiynau, sylwadau a sgyrsiau cyn-ddysgwyr
  - tynnu sylw at lwybrau at ddeunydd ymchwil a gwybodaeth sy'n berthnasol i gyrsiau penodol neu feysydd pwnc
  - Darparu gwasanaeth yn arbennig ar gyfer cefnogi'r dysgwr a sicrhau bod mynediad hwylus at ddeunyddiau cwrs, cyfathrebu gyda'r tiwtor, gweithwyr proffesiynol i gefnogi astudiaethau a dysgwyr eraill i gefnogi, tra ar-lein

Fe all dysgwyr greu eu "taith ddysgu" eu hunain hefyd trwy ddefnyddio'r rhyngrwyd yn annibynnol, cymryd rhan mewn trafodaeth ar safleoedd y maen nhw'n eu dewis eu hunain, dilyn eu diddordeb eu hunain. Efallai y bydd safon yr wybodaeth ar y rhyngrwyd, a hygyrchedd yr wybodaeth, yn newid rôl athrawon o fod yn ddarparwyr cynnwys sylweddol, i fod yn hwyluswyr ar gyfer y broses o greu gwybodaeth, gan sicrhau bod dysgwyr yn ennill y sgiliau i ddadansoddi'r wybodaeth yn feirniadol.

Manteision e-ddysgu - ymchwilio i arfer gorau

Mae e-ddysgu yn ymagwedd gymharol newydd ar ddarparu cyfleoedd dysgu ac fe allai gynnig atebion newydd. Ond, mae'n bwysig deall anghenion ar-lein dysgwyr a chymunedau fel y gallwn weithio tuag at sicrhau bod cyfleoedd e-ddysgu yn addas ar gyfer yr angen lleol.

Yng nghyd-destun Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd, canfuwyd yr angen i ymchwilio ymhellach i'r materion canlynol:

- Pa dechnoleg sydd fwyaf effeithiol o ran helpu oedolion i ddysgu? Fideo Digidol, TGCh, Fideo gynadledda, Dyfeisiadau llaw, Amgylchedd Rhith-Ddysgu cymunedol
- Sut y gellir rhoi'r lle gorau i hoffterau dysgu ac arddulliau gwahanol ddysgwyr trwy ddefnyddio technoleg?
- Pa gynllun rith-systemau sydd fwyaf effeithiol o ran denu dysgwyr newydd?
- Pa strategaethau addysgu a dysgu ac asesu ar-lein sydd orau ar gyfer amrywioldeb dysgwyr sy'n oedolion?
- Sut allwn ni gael hyd i'r meddalwedd a'r caledwedd arbenigol i wella hygyrchedd i bawb?
- Beth sydd ei angen i gael dysgwyr i ddod ar-lein?
- Pa system cymorth i fyfyrwyr sy'n gweithio orau ar gyfer y boblogaeth amrywiol o ddysgwyr sy'n oedolion?

Mae'n bwysig i fudiadau cymunedol a dysgwyr cymunedol fod yn rhan o unrhyw dîm ymchwil, gan gyfarwyddo ymchwil i gwrdd â'u hanghenion eu hun ac i symud i ffwrdd oddi wrth y diwylliant o gael eu hymchwilio. Mae PPGC yn hybu ymagwedd o'r fath yn weithgar ac yn anelu at gefnogi datblygiad sgiliau staff o fewn mudiadau cymunedol a'u gallu i ymgymryd â gweithgareddau ymchwil.

Partneriaeth Prifysgol Gynumedol y Cymoedd

Datganiad o Genhadaeth

Rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i:

i) ddyfeisio strategaethau addysg uwch a fydd yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag eithrio ac amddifadiad gan gefnogi adfywio diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd cymunedau ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

ii) darparu rhaglenni dysgu arloesol a strwythurau cyfarwyddo cefnogol i dargedu'r rhai sy'n cael eu heithrio ar hyn o bryd a lledaenu a chynyddu mynediad i ddysgu gan unigolion a grwpiau na fuont yn cymryd rhan cyn hyn

iii) cefnogi dilyniant i addysg uwch drwy ddatblygu cyfleoedd dysgu wedi'u seilio ar y diffiniad ehangaf o ddysgu gydol oes - dysgu anffurfiol, rhaglenni heb eu hachredu ac wedi'u hachredu

iv) dod i gytundeb ar gydnabod cyflawniadau a chredydau ein gilydd

v) adnabod a hyrwyddo modelau o arfer da sy'n pwysleisio dysgu ar y cyd a myfyriwr-ganolog wedi'u seilio yn y gymuned a lledaenu ein profiadau o bartneriaeth mewn dysgu wedi'i seilio ar y gymuned

vi) datblygu strwythurau a fydd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr a chymunedau gymryd rhan fel partneriaid cydradd, i drafod cwricwlwm sy'n addas i'w hanghenion ac i ddylanwadu ar ddatblygu rhaglenni dysgu a gwasanaethau cefnogi addas

vii) rhoi statws cyfartal a pharch i'r holl gynrychiolwyr o fewn y bartneriaeth a chydnabod pwysigrwydd grwpiau cymunedol nad ydynt wedi'u cynrychioli'n uniongyrchol

viii) cefnogi rhagoriaeth mewn ymchwil i ddysgu a chymunedau, er mwyn cyfrannu at ddatblygiadau partneriaeth

ix) gwneud y defnydd gorau posib o adnoddau priodol ar draws y bartneriaeth, drwy strategaethau fel ceisiadau ar y cyd am gyllid, i ddatblygu rhaglenni dysgu integredig ac arloesol

x) sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cyfathrebu â'i gilydd ac yn parchu gweithgareddau ei gilydd i gynyddu'r ymwneud ar draws y bartneriaeth gymaint â phosib

xi) sicrhau bod holl weithgareddau'r bartneriaeth yn glynu at egwyddorion cyfleoedd cyfartal